Mae'n ddrwg gen i fod yn niwsans

(gwyleidd-dra / meddwl am eraill / ffyddlondeb)

Pan dorrodd y Rhyfel Byd Cyntaf allan ym 1914 roedd y Parchedig Theodore Hardy yn 51 oed. Roedd wedi bod yn athro ysgol am gyfnod yn Nottingham ac wedyn yn offeiriad yn ardal y Llynnoedd ond roedd ganddo un dymuniad. "Mi fuaswn i wrth fy modd yn cael bod yn Gaplan yn helpu'r milwyr yn y rhyfel mawr," meddai wrth un o'i ffrindiau ryw ddiwrnod. "Mae gen i ofn," meddai hwnnw wrtho, "dy fod yn rhy hen. Dynion a merched ifanc, heini maen nhw eu hangen i ryfela nid hen begor fel ti." Ond roedd Hardy'n benderfynol. Aeth i weld yr awdurdodau a chafodd gyfweliad. Cafodd dri chyfweliad a chael ei wrthod bob tro.

Ar ôl cael ei wrthod y trydydd tro cafodd syniad. "Rwyf am fynd ar gwrs Cymorth Cyntaf. Rwy'n siŵr y bydd dilyn y cwrs hwnnw o help mawr i mi." Felly, bob nos Fercher, am saith o'r gloch yn ddi-ffael, dyna lle byddai'r offeiriad yn mynd i neuadd yr eglwys gyfagos i ddysgu sut i drin clwyfau pobl oedd wedi'u hanafu. Am dri mis cyfan bu wrthi'n dysgu. Ar ddiwedd y trydydd mis aeth am gyfweliad arall. Er mawr syndod iddo cafodd ei dderbyn y tro hwn yn Gaplan yn y fyddin.

Am ddwy flynedd gron bu'n helpu'r milwyr. Ymhle bynnag roedd y brwydro ar ei ffyrnicaf yno roedd y Caplan Hardy yn trin y clwyfau, yn cysuro'r rhai oedd yn marw ac yn rhoi gobaith i nifer o filwyr oedd yn gorfod dal ati i frwydro. Byddai'n treulio oriau'r nos yn gofalu am filwr oedd wedi'i anafu trwy roi bwyd a diod iddo a gweddïo ar Dduw.

Dyn distaw, gwylaidd oedd Hardy. Pan fyddai'n dod i gwmni'r milwyr yn y ffosydd yr unig beth y byddai'n ei ddweud oedd, "Dim ond fi sydd yma," a mynd atyn nhw'n ddistaw. Doedd ganddo ddim ofn neb na dim, hyd yn oed bwledi'r gelyn.

Un diwrnod, a'r brwydro'n gwaethygu o funud i funud, gwelodd Hardy fod un o'r milwyr yn gorwedd ar lain o dir y tu allan i'r ffosydd. Roedd hwn yn dir peryglus iawn, yn gwbl agored. Byddai'r gelyn yn siŵr o'i weld a'i saethu'n farw. Dringodd Hardy o ddiogelwch y ffosydd a symudodd yn araf, araf ar ei stumog ar hyd y tir glas tuag at y milwr clwyfedig. Bob hyn a hyn arhosai i orffwys.

Roedd y milwyr eraill yn dal eu gwynt! Roedd y brwydro'n parhau a'r saethu'n ddiddiwedd. Ymhen hanner awr roedd Hardy

wedi cyrraedd y milwr. Roedd yn amlwg fod yr hyn yr oedd wedi'i ddysgu yn y dosbarthiadau Cymorth Cyntaf wedi bod yn help mawr iddo. Yn araf, araf, tynnodd gadachau o'r bag oedd ar ei gefn. Roedd yn bwysig bod pob symudiad yn cael ei wneud yn ofalus rhag ofn i'r gelyn eu gweld. Yn araf-bwyllog trodd y milwr ar ei gefn a rhoddodd y cadachau am ei goes. Ond dal i lifo oedd y gwaed. Doedd y Caplan ddim yn gallu gwneud dim mwy. Arhosodd wrth ei ochr. Dechreuodd weddïo. Adroddodd ambell adnod oddi ar ei gof. Dywedodd ambell stori wrtho.

Erbyn hyn roedd hi'n dechrau nosi. Arhosodd hyd nes yr oedd yr haul wedi machlud. Yna, llithrodd yn ôl ar ei stumog unwaith eto at y milwyr oedd yn y ffosydd. Gofynnodd am help. Cyn pen dim roedd y milwyr wedi cario'r milwr clwyfedig yn ôl i'r ffosydd. Yno cafodd drin ei friwiau ac ymhen ychydig ddyddiau roedd y milwr ar ei draed. Derbyniodd fedal arbennig gan y Brenin George V. Ar y cychwyn roedd am wrthod y fedal ond perswadiodd y milwyr ef i'w dderbyn. Fel roedd y rhyfel yn dirwyn i ben cafodd ei saethu gan y gelyn. Wrth i'r milwyr ei gario o faes y frwydr meddai wrthyn nhw, "Mae'n ddrwg gen i fod yn niwsans." Roedd hyn yn nodweddiadol o'r Caplan oedd yn meddwl dim amdano'i hun, ond roedd yn gofalu'n fawr am ei gyd-ddynion.

Adnod: "Nid pawb sy'n dweud wrthyf, 'Arglwydd, Arglwydd', fydd yn mynd i mewn i deyrnas nefoedd, ond y sawl sy'n gwneud ewyllys fy Nhad." Mathew 7:21

Gweddi: O Dad, a wnei di fy nysgu i fod yn wylaidd ac i wneud y pethau bychain. Amen.

Trafod:

- Beth yn union yw gwaith Caplan yn y fyddin?
- Sut fyddech chi'n disgrifio dewrder y Caplan?